# Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

Crynodeb o'n hymgynghoriad

Cyhoeddwyd 8 Mai 2024

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg....................................................................................................................3
Yr hyn rydym yn ei gynnig...............................................................................................6
Yr hyn rydym wedi'i gyhoeddi ........................................................................................28

# Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o ymgynghoriad Ofcom ar amddiffyn plant ar-lein. Mae wedi'i chynllunio i fod yn grynodeb o'n cynigion i helpu partïon sydd â diddordeb i'w hadolygu'n gyflym. Darllenwch y dogfennau ymgynghori llawn os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.**

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein y DU 2023 ('y Ddeddf') yn gwneud llwyfannau – gan gynnwys gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau chwilio, a gwasanaethau pornograffi – yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw pobl, yn enwedig plant, yn ddiogel ar-lein. Mae gan y gwasanaethau hyn ddyletswyddau newydd i ddiogelu defnyddwyr yn y DU drwy asesu risgiau o niwed a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Ofcom yw rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU ac felly mae'n gyfrifol am ddarparu codau a chanllawiau i gefnogi gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i gydymffurfio â'u dyletswyddau a sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU. Mae'r drefn diogelwch ar-lein yn hynod o uchelgeisiol, ac fel y nodir yn ein map, rydym yn symud yn gyflym i roi'r deddfau newydd hyn ar waith.

Sicrhau lefel uwch o amddiffyniad ar-lein i blant nag i oedolion yw un o amcanion y Ddeddf. Mae'r amcan hwn yn rhedeg drwy'r polisïau rydym wedi'u cynnig mewn ymgynghoriadau blaenorol. Yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, gwnaethom nodi cynigion i amddiffyn plant rhag cynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, gan gynnwys niwed drwy gyswllt fel meithrin perthynas amhriodol, yn ogystal â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn ein Hymgynghoriad Rhan 5, gwnaethom gynnig sut y dylai darparwyr cynnwys pornograffig ar-lein atal plant rhag cael gafael ar gynnwys pornograffig.

Gan adeiladu ar yr ymgynghoriadau cynharach hyn, rydym yn cyflwyno set gynhwysfawr o ganllawiau a chodau drafft yn y fan hon a fydd yn helpu gwasanaethau ar-lein i amddiffyn plant yn well. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r hyn a wyddom o'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd ar gael am risgiau i blant, gan gynnwys yr hyn mae plant eu hunain wedi'i ddweud wrthym.

Mae plant yn elwa o'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig ac maent yn mwynhau treulio amser ar-lein at ddibenion dysgu, cyfeillgarwch, ac adloniant. Ond mae ein hasesiad o achosion ac effeithiau niwed ar blant yn dangos i ni fod y rhan fwyaf wedi dod ar draws cynnwys a gweithgarwch niweidiol ar-lein sydd wedi cael effaith ddifrifol ar eu lles corfforol a meddyliol. Weithiau mae gweithgarwch ar-lein hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau angheuol.

### Beth mae'n rhaid i wasanaethau ar-lein ei wneud i amddiffyn plant

**Asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth – neu ran ohono.** Mae hyn yn golygu cwblhau "asesiadau mynediad plant". Rydym wedi cyhoeddi Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant â'r diben o helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio. Rydym yn rhagweld y bydd plant yn debygol o gael mynediad, o fewn ystyr y Ddeddf, at y rhan fwyaf o wasanaethau nad ydynt yn defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn. Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant gymryd y camau canlynol.

**Cwblhau asesiad risg plant er mwyn nodi'r risgiau i blant wrth ddefnyddio'u gwasanaeth(au).** Gelwir hwn yn "asesiad risg plant". Mae asesiadau risg plant ar wahân i'r asesiadau risg cynnwys anghyfreithlon y mae angen i bob gwasanaeth eu cwblhau. Rydym wedi cyhoeddi Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant. Mae'r canllaw cam wrth gam hwn yn egluro sut y gall gwasanaethau gwblhau'r asesiad ac asesu'r risgiau i blant. Mae hefyd yn cynnwys fersiwn ddrafft o'n Proffiliau Risg Plant, sy'n

rhoi trosolwg o ffactorau sy'n cynyddu'r risg o niwed i blant, ac mae'n rhaid i wasanaethau ystyried y rhain wrth gynnal asesiad risg plant.

Rhaid i wasanaethau atal plant rhag dod ar draws y cynnwys mwyaf niweidiol sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta, a phornograffi. Rhaid i wasanaethau hefyd leihau'r posibilrwydd i blant ddod i gysylltiad â niwed difrifol arall, gan gynnwys deunydd treisgar, cas neu sarhaus, cynnwys bwlio, a chynnwys sy'n hybu heriau peryglus.

Mae ein Cofrestr Risgiau Plant ddrafft yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae risgiau o niwed i blant yn dod i'r amlwg ar-lein; ac mae ein Canllawiau drafft ar Gynnwys Niweidiol i Blant yn rhoi enghreifftiau o'r hyn mae Ofcom yn ei ystyried yw cynnwys niweidiol i blant.

**Rhoi mesurau diogelwch ar waith i liniaru'r risgiau i blant**. Rydym yn cynnig mwy na 40 o fesurau diogelwch yn ein Codau Diogelwch Plant drafft ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio, yn y meysydd cyffredinol canlynol:

- **Archwiliadau oedran cadarn.** Rydym yn disgwyl gweld llawer mwy o ddefnydd o ddulliau sicrhau oedran fel bod gwasanaethau'n gwybod pa rai o'u defnyddwyr sy'n blant. Dylai pob gwasanaeth nad yw'n gwahardd cynnwys niweidiol, a'r rheini lle mae mwy o berygl i gynnwys o'r fath gael ei rannu ar eu gwasanaeth, gynnal archwiliadau oedran hynod effeithiol er mwyn atal plant rhag ei weld.
- **Algorithmau mwy diogel**. Systemau argymell – algorithmau sy'n darparu argymhellion personol i ddefnyddwyr – yw prif lwybr plant at niwed ar-lein. O dan ein cynigion, mae'n rhaid i unrhyw wasanaeth sy'n defnyddio system argymell a lle mae risg uwch o gynnwys niweidiol nodi pwy yw eu defnyddwyr sy'n blant a ffurfweddu eu halgorithmau i hidlo'r cynnwys mwyaf niweidiol o ffrydiau plant a gwneud cynnwys niweidiol arall yn llai amlwg.
- **Cymedroli effeithiol**. Dylai pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gael systemau a phrosesau cymedroli cynnwys sy'n sicrhau bod camau cyflym yn cael eu cymryd yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol i blant. Dylai gwasanaethau chwilio hefyd gael systemau cymedroli priodol a, phan fydd gwasanaethau chwilio mawr yn credu bod defnyddiwr yn blentyn, dylai gosodiad 'chwilio diogel' nad oes modd i blant ei ddiffodd hidlo'r cynnwys mwyaf niweidiol.
- **Llywodraethu ac atebolrwydd cryf**. Mae'r mesurau arfaethedig yma'n cynnwys cael unigolyn a enwir i fod yn atebol am sicrhau cydymffurfiad â'r dyletswyddau diogelwch plant; adolygiad blynyddol gan uwch gorff o'r holl weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant; a Chod Ymddygiad i weithwyr sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr yn ymwneud ag amddiffyn plant.
- **Mwy o ddewis a chefnogaeth i blant**. Mae hyn yn cynnwys sicrhau gwybodaeth glir a hygyrch i blant a gofalwyr, gyda phrosesau adrodd a chwyno sy'n hawdd eu defnyddio, a rhoi adnoddau a chefnogaeth i blant i'w helpu i gadw'n ddiogel.

**Rydym yn disgwyl y bydd y mesurau hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i brofiadau plant ar-lein.** Er enghraifft:

- Ni fydd plant fel arfer yn gallu cael mynediad at bornograffi.
- Bydd plant yn cael eu hamddiffyn rhag gweld, a chael cynnig, cynnwys a allai fod yn niweidiol.
- Ni fydd plant yn cael eu hychwanegu at sgyrsiau grŵp heb eu caniatâd.
- Bydd yn haws i blant gwyno pan fyddan nhw'n gweld cynnwys niweidiol, a gallan nhw fod yn fwy hyderus y bydd camau'n cael eu cymryd ar sail eu cwynion.

Rydym yn egluro ein cynigion yn gryno yn y ddogfen hon ac mae ein Codau Arfaethedig – cipolwg yn rhoi trosolwg o'r mesurau rydym yn eu cynnig yn ein Codau drafft.

**Parhau i adolygu asesiadau mynediad plant, asesiadau risg plant a mesurau diogelwch.** Mae'n rhaid i wasanaethau 'nad ydynt yn debygol o gael eu defnyddio gan blant' gynnal asesiadau mynediad plant bob blwyddyn, a chyn unrhyw newidiadau mawr i'w gwasanaethau. Ac mae angen i wasanaethau sicrhau bod eu hasesiadau risg plant yn cael eu diweddaru, gan gynnwys pan fydd Ofcom yn gwneud newidiadau sylweddol i Broffiliau Risg Plant, a chyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'w dyluniad a'u gweithrediad. Rydym hefyd yn awgrymu bod darparwyr gwasanaethau yn monitro effeithiolrwydd y mesurau diogelwch maent yn eu rhoi ar waith, a'u bod yn eu gwella'n barhaus dros amser.

## Mae'n rhaid i gamau fod yn gymesur

Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn sicrhau bod ein cynigion yn gymesur. Y brif ystyriaeth wrth ddylunio ein cynigion yw'r graddau y gallant leihau'r risgiau i blant, gan ystyried yr angen am lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.

Rydym yn cydnabod bod maint, capasiti, a risgiau gwasanaethau'n amrywio'n eang, ac felly nid ydym yn defnyddio un dull sy'n addas i bawb. Yn hytrach, rydym wedi nodi pa fathau o wasanaeth a ddylai, yn ein barn ni, ddefnyddio mesurau diogelwch penodol i gydymffurfio â'u dyletswyddau, gyda'r disgwyliadau mwyaf helaeth ar y gwasanaethau sydd â'r risg mwyaf.

Ni all gwasanaethau wrthod cymryd camau i amddiffyn plant am ei fod yn rhy ddrud neu anghyfleus – mae amddiffyn plant yn flaenoriaeth a bydd yn rhaid i bob gwasanaeth, hyd yn oed y lleiaf, gymryd camau o ganlyniad i'n cynigion.

Bydd y mesurau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn o reidrwydd yn cael effaith ar brofiadau plant ac oedolion a gallant effeithio ar eu hawliau i ryddid mynegiant a hawliau sylfaenol eraill. Rydym wedi ceisio sicrhau y bydd ein mesurau'n amddiffyn plant ar-lein heb effeithio'n ormodol ar hawliau defnyddwyr na thanseilio arloesedd a buddsoddiad mewn gwasanaethau o ansawdd uchel ar-lein y mae plant ac oedolion yn elwa ohonynt.

## Diweddaru ein codau a'n canllawiau

Dyma'r fersiwn gyntaf o'n codau a chanllawiau rheoleiddio yn ymwneud ag amddiffyn plant. Rydym yn rhagweld y byddwn yn diweddaru'r cynnyrch dan sylw dros amser wrth i dystiolaeth newydd ymddangos ynghylch y risgiau i blant sy'n dod i'r amlwg a pha fesurau fydd yn cadw plant yn fwyaf diogel ar-lein. Rydym eisoes wedi nodi rhai meysydd lle rydym am archwilio mesurau ategol, gan gynnwys mewn perthynas â defnyddio dulliau cymedroli cynnwys awtomataidd i ganfod cynnwys anghyfreithlon a niweidiol, fel rydym yn ei drafod yng Nghyfrol 5.

## Y camau nesaf

Rydym yn gwahodd ymatebion gan randdeiliaid i'n hymgynghoriad erbyn 17 Gorffennaf 2024. Byddwn yn ystyried yr holl adborth, a hefyd yn ymgysylltu â phlant i glywed eu barn am ein cynlluniau. Rydym yn disgwyl cwblhau ein cynigion a chyhoeddi ein datganiad a'n dogfennau terfynol yn y Gwanwyn 2025.

# Yr hyn rydym yn ei gynnig

**Dyma drosolwg o'n hymgynghoriad ar amddiffyn plant rhag niwed ar-lein. Mae'n grynodeb lefel uchel o'r hyn rydym yn ei gynnig i helpu partïon sydd â diddordeb i fynd i'r afael â'n cynigion yn gyflym.**


**Mae manylion llawn ein cynigion a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, yn ogystal â chwestiynau ymgynghori manwl, wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori lawn. Darllenwch y dogfennau ymgynghori llawn os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.**

## Amddiffyn plant ar-lein

Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n ceisio gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bobl yn y DU. Un o brif amcanion y Ddeddf yw sicrhau gwell diogelwch i helpu i gadw plant yn fwy diogel ar-lein. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir mai nod y dyletswyddau a osodir ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw sicrhau eu bod yn ddiogel drwy ddyluniad, a'u bod yn cael eu dylunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi safon uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.

Mae'r Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio i sicrhau eu bod yn diogelu plant ar-lein,[1] gan gynnwys:

- cynnal **asesiadau mynediad plant** er mwyn asesu a oes modd i blant gael mynediad at eu gwasanaeth(au) neu ran ohono;
- os yw'n briodol, cynnal **asesiad risg plant** er mwyn asesu'r risgiau i blant wrth ddefnyddio'u gwasanaeth(au);
- **cymryd camau diogelwch** i fynd i'r afael â risgiau a diogelu plant ar-lein**;** a
- **parhau i adolygu risgiau a mesurau diogelwch**.[2]




[1] Trowch at Bennod 3 o Gyfrol 1 yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon i gael rhagor o wybodaeth am y mathau o wasanaethau sydd o fewn cwmpas y drefn diogelwch ar-lein.
[2] Trowch at Gwmpas yr ymgynghoriad hwn, Adran 2, Cyfrol 1, i gael rhagor o wybodaeth.

## Cynnwys sy’n niweidiol i blant

Wrth gydymffurfio â’r dyletswyddau diogelwch plant, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried gwahanol fathau o gynnwys sy’n niweidiol i blant. Mae’r Ddeddf yn diffinio ‘cynnwys sy’n niweidiol i blant’ mewn tri chategori bras:[3]

| Categori'r cynnwys | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Cynnwys prif flaenoriaeth sy’n niweidiol i blant** | Cynnwys pornograffig, a chynnwys sy’n annog, yn hyrwyddo neu’n darparu cyfarwyddiadau ar gyfer hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta. |
| **Cynnwys blaenoriaeth sy’n niweidiol i blant** | Cynnwys sy’n sarhaus neu sy’n ysgogi casineb, cynnwys bwlio, a chynnwys sy’n annog, yn hyrwyddo neu’n darparu cyfarwyddiadau ar gyfer trais, styntiau a heriau peryglus, a gweinyddu sylweddau niweidiol eu hunain. |
| **Cynnwys heb ei ddynodi sy'n cyflwyno risg sylweddol o niwed i blant** | Unrhyw fathau o gynnwys nad ydynt yn dod o fewn y ddau gategori uchod sy’n peri “risg sylweddol o niwed sylweddol i nifer arwyddocaol o blant yn y DU”. |

## Ein codau a chanllawiau drafft

Mae ein pecyn o godau a chanllawiau drafft wedi’i gynllunio i gefnogi gwasanaethau ar-lein i gydymffurfio â’u dyletswyddau o dan y Ddeddf – ac mae’n sylfaen i wasanaethau gael y systemau a’r prosesau i ddarparu profiadau mwy diogel ar-lein i blant. Mae’n seiliedig ar ein hasesiad o’r risgiau y mae plant yn eu hwynebu ar-lein. Mae Cyfrol 3 yn nodi ein dadansoddiad llawn o achosion ac effeithiau niwed i blant ar-lein. Rydym hefyd wedi casglu mewnbwn sylweddol gan y sector ar-lein, yn ogystal â sefydliadau plant, academyddion, ymchwilwyr annibynnol, a chyrff cyhoeddus eraill.

Wrth ddatblygu ein cynigion, ein prif nod oedd sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn ar-lein. Fel sy’n ofynnol gan y Ddeddf, rydym hefyd wedi pwyso a mesur yr effaith a’r gost i wasanaethau ac wedi ceisio bod yn gymesur yn ein cynigion. Ac rydym wedi sicrhau, pan fydd unrhyw fesur arfaethedig yn ymyrryd â hawliau sylfaenol pobl, fel rhyddid mynegiant a phreifatrwydd, bod yr ymyrraeth hon yn gymesur â’n hamcan o amddiffyn plant.[4]

Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau cysondeb â’n Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon a’n Canllawiau Rhan 5. Rydym yn amlinellu unrhyw wahaniaethau allweddol yn y ddogfen hon gyda rhagor o fanylion yn adrannau perthnasol yr ymgynghoriad.

**Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi trosolwg o’n cynigion i helpu partïon sydd â diddordeb i fynd i’r afael â’n cynigion yn gyflym.**

[3] Cyfeiriwch at ein Canllawiau drafft ar Gynnwys sy’n Niweidiol i Blant (Cyfrol 3, Adrannau 8.1-8.10).
[4] Trowch at *Beth ddylai gwasanaethau ei wneud i liniaru’r risg o niwed i blant ar-lein* (Cyfrol 5) i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi datblygu ein cynigion.

# Cam 1: Asesu a yw plant yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein

**Rydym wedi cyhoeddi ein Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant ar sut y dylai gwasanaethau gwblhau asesiadau mynediad plant.**

Bydd angen i bob darparwr gwblhau'r hyn a elwir yn 'asesiadau mynediad plant'. Bydd y rhain yn helpu gwasanaethau i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth, neu ran ohono.

Rhaid i asesiadau mynediad plant fod yn 'addas ac yn ddigonol'. Mae dau gam bras:

- **Cam 1**: Mae'n rhaid i ddarparwyr benderfynu a oes modd i blant gael mynediad at eu gwasanaeth, neu ran ohono; ac os felly, symud i Gam 2.
- **Cam 2**: P'un a oes nifer sylweddol o blant yn defnyddio'r gwasanaeth a/neu a yw'r gwasanaeth yn debygol o ddenu nifer sylweddol o blant (yr 'amod defnyddiwr sy'n blentyn').

Rhaid i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau gwblhau eu hasesiadau mynediad plant cyntaf o fewn tri mis i'r adeg mae Ofcom yn cyhoeddi ei ganllawiau asesiadau mynediad plant terfynol.

Nod ein Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant – fel sy'n cael ei grynhoi isod – yw helpu gwasanaethau i gwblhau eu hasesiadau mynediad plant, gan gynnwys drwy nodi sut i fynd ati i asesu a beth i'w ystyried ar bob cam. Credwn y bydd y broses hon yn syml i'r rhan fwyaf o ddarparwyr.

## Ein cynigion – yn gryno

### Cam 1: A oes modd i blant gael mynediad at y gwasanaeth, neu ran ohono?

Mae'n rhaid i ddarparwyr benderfynu a oes modd i blant gael mynediad at eu gwasanaeth, neu ran ohono. Yr unig ffordd y gall darparwyr ddod i'r casgliad nad oes modd i blant gael mynediad at y gwasanaeth yw os ydynt yn defnyddio dulliau dilysu oedran neu amcangyfrif oedran (a elwir gyda'i gilydd yn sicrwydd oedran), sy'n atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Mae'n rhaid i'r dulliau sicrhau oedran a ddefnyddir fod yn effeithiol iawn o ran atal plant rhag cael mynediad at y gwasanaeth neu'r rhan berthnasol ohono.

Pan fyddwn yn dweud 'effeithiol iawn', rydym yn golygu bod yn rhaid iddo fod yn dechnegol gywir, yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn deg. Mae rhagor o fanylion am beth yw sicrwydd oedran effeithiol iawn yn ein canllawiau drafft yn Atodiad 10. Yn gryno, dyma beth mae pob maen prawf yn ei olygu.

- **Cywirdeb technegol** – y graddau y gall dull sicrhau oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir o dan amodau labordy.
- **Cadernid** – y graddau y gall dull sicrhau oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir o dan amodau annisgwyl neu amodau byd go iawn.
- **Dibynadwyedd** – y graddau y mae'r allbwn oedran o ddull sicrhau oedran yn perfformio o ran cynhyrchu'r un allbynnau neu allbynnau tebyg yn gyson pan fyddant yn cael yr un mewnbynnau neu fewnbynnau tebyg.
- **Tegwch** – y graddau y mae dull sicrhau oedran yn osgoi neu'n lleihau rhagfarn a chanlyniadau gwahaniaethol.

Mae enghreifftiau o ddulliau sicrhau oedran sydd â'r potensial i fodloni'r meini prawf uchod yn cynnwys paru ID llun, amcangyfrif oedran yr wyneb, a gwasanaethau hunaniaeth ddigidol y gellir eu hailddefnyddio. Mae enghreifftiau o ddulliau sicrhau oedran nad ydynt yn gallu bod yn effeithiol

iawn yn cynnwys dulliau talu nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r defnyddiwr fod dros 18 oed, hunan-ddatganiad ynghylch oedran, a chyfyngiadau cytundebol cyffredinol ynghylch defnydd plant o'r gwasanaeth.

Os oes gan ddarparwr ddull sicrhau oedran effeithiol iawn ar waith, nid oes angen iddo fynd ymlaen i gwblhau Cam 2 o'r asesiad mynediad plant. Gall ddod i'r casgliad nad yw plant yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth ac felly nid yw'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau diogelwch plant. Dylai darparwyr sy'n dod i'r casgliad nad yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaeth gofnodi'r dystiolaeth sy'n ategu'r casgliad hwnnw.

## Cam 2: A yw'r amod defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni?

Os bydd y darparwr yn darganfod bod plant yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth, neu ran ohono, dylai symud ymlaen i Gam 2 ac ystyried a yw'r 'amod defnyddiwr sy'n blentyn' yn cael ei fodloni. Mae hyn yn wir os yw o leiaf un o'r meini prawf canlynol yn cael ei ddiwallu:

- mae nifer sylweddol o blant yn defnyddio'r gwasanaeth; a/neu
- mae'r gwasanaeth o fath sy'n debygol o ddenu nifer sylweddol o blant.

Rhaid i'r darparwr ddewis pa faen prawf i'w ystyried yn gyntaf i ganfod a yw'r amod defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni. Mae darparwyr gwasanaethau, yn enwedig y rheini heb ddulliau dibynadwy o sicrhau oedran, yn aml yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu'n gywir rhwng defnyddwyr sy'n oedolion a defnyddwyr sy'n blant; mae hynny'n golygu ei bod hi'n anodd pennu faint o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Felly, efallai y bydd darparwyr yn dymuno canolbwyntio ar yr ail faen prawf – a yw'r gwasanaeth yn debygol o ddenu nifer sylweddol o blant. Rydym wedi cynnig rhestr o ffactorau y dylai darparwyr eu hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn:

- a yw'r gwasanaeth yn darparu manteision i blant – fel adloniant, addysg neu gefnogaeth;
- a yw'r cynnwys ar y gwasanaeth yn apelio at blant;
- a yw dyluniad y gwasanaeth yn apelio at blant; ac
- a yw plant yn rhan o strategaeth fasnachol y gwasanaeth.

Hyd yn oed os nad yw eich gwasanaeth yn mynd ati i dargedu plant neu os yw'n ceisio cyfyngu ar fynediad i blant o dan oedran penodol, efallai y bydd yn dal i fod o fath sy'n debygol o ddenu nifer sylweddol o blant.

Nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth a olygir wrth 'nifer sylweddol' o blant. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar natur y gwasanaeth ac fe ddylai adlewyrchu nifer neu gyfran sy'n sylweddol yng nghyd-destun y gwasanaeth. Gallai hyd yn oed nifer cymharol fach o blant fod yn sylweddol o ran y risg o niwed. Rydym yn awgrymu y dylai darparwyr gwasanaethau fod yn rhy ofalus wrth wneud eu hasesiad.

## Cofnodi'r canlyniad

Dylai darparwyr gofnodi canlyniad eu hasesiad mynediad plant, ni waeth beth yw eu canfyddiadau. Pan fydd darparwyr yn dod i'r casgliad nad yw'r amod defnyddiwr sy'n blentyn yn cael ei fodloni, dylent gofnodi'r camau a gymerwyd a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad hwn. Dylai'r darparwyr gwasanaethau hyn fod yn barod i ddangos hyn gyda thystiolaeth fanwl. Nid oes angen i wasanaethau sy'n dod i'r casgliad eu bod yn bodloni'r amod defnyddiwr sy'n blentyn gofnodi tystiolaeth fanwl i gefnogi'r casgliad hwn.

Efallai fod darparwyr gwasanaethau eisoes wedi asesu a ydynt yn debygol o gael eu defnyddio gan blant at ddibenion cod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â

rheoliadau diogelu data, ac efallai y byddant yn gallu defnyddio’r un dystiolaeth a dadansoddiad ar gyfer y ddau.

# Sut mae gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu cadw’n ddiogel ar-lein

Bydd yn rhaid i wasanaethau y tybir eu bod yn debygol o gael eu defnyddio gan blant gymryd camau i’w hamddiffyn:

- **Cwblhau ‘asesiadau risg plant’ er mwyn nodi'r risgiau i blant wrth ddefnyddio’u gwasanaethau.** Mae ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant a’r dogfennau cysylltiedig yn helpu gwasanaethau i gwblhau’r broses hon.
- **Rhoi mesurau diogelwch ar waith i liniaru’r risgiau a nodwyd a sicrhau bod plant yn cael eu diogelu ar-lein.** Mae ein Codau Diogelwch Plant drafft yn nodi’r mesurau arfaethedig yn llawn.

# Cam 2: Cwblhau’r asesiad risg plant

**Rydym wedi cyhoeddi ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant ar sut y dylai gwasanaethau gwblhau eu hasesiad risg plant.**

Bydd gwasanaethau sy’n debygol o gael eu defnyddio gan blant angen cwblhau asesiad risg plant. Diben hyn yw sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o’r risgiau sy'n codi i blant ar eu gwasanaeth, a’u bod yn rhoi’r mesurau angenrheidiol ar waith i reoli a lliniaru’r risgiau hynny.

Bwriad ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant yw helpu gwasanaethau i gyflawni eu dyletswyddau asesu risg, ac maent yn nodi’r camau y gall gwasanaethau eu cymryd i gwblhau asesiad risg addas a digonol (a grynhoir isod). Rhaid i wasanaethau hefyd ystyried ein Proffiliau Risg Plant drafft wrth gwblhau eu hasesiad risg plant; mae’r rhain yn rhoi trosolwg o’r ffactorau risg sy’n cynyddu’r risg o niwed o wahanol fathau o gynnwys sy’n niweidiol i blant.

Mae ein Cofrestr Risgiau Plant ddrafft yn nodi sut mae risgiau o niwed i blant yn dod i’r amlwg ar-lein ac mae ein Canllawiau drafft ar Gynnwys Niweidiol i Blant yn rhoi enghreifftiau o ba fathau o gynnwys mae Ofcom yn ystyried sy’n niweidiol, neu ddim yn niweidiol, i blant. Gellir hefyd defnyddio’r ddwy ddogfen fel deunydd cyfeirio.

## Ein cynigion – yn gryno

Rydym wedi ceisio gwneud ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant yn gydnaws â’n Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Niwed Anghyfreithlon lle bo’n bosibl. Mae’n rhaid i wasanaethau sy’n debygol o gael eu defnyddio gan blant gynnal asesiad risg plant *yn ogystal* â’u hasesiad risg niwed anghyfreithlon.

Mae’n ofynnol i wasanaethau gwblhau asesiad risg plant ‘addas a digonol’ sydd â dwy elfen fras: cwblhau holl elfennau perthnasol yr asesiad risg plant yn y Ddeddf; a chyflawni pob elfen i safon addas a digonol ar gyfer eu gwasanaeth.

Mae ein dull arfaethedig o asesu risg wedi’i wreiddio mewn arferion gorau sy’n ymwneud â systemau rheoli risg. Rydym yn cynnig bod gwasanaethau’n dilyn methodoleg pedwar cam ar gyfer eu hasesiad risg plant:[5]

[5] Trowch at ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant, gan gynnwys sut i ddefnyddio’r Proffiliau Risg Plant drafft cysylltiedig.

- **Deall cynnwys a allai fod yn niweidiol i blant.** Dylai gwasanaethau adolygu'r mathau o gynnwys a allai fod yn niweidiol i blant fel rhan o'r broses asesu risg – mae'r rhain wedi'u rhestru yn y Canllawiau drafft ar Asesiad Risg. Mae ein Canllawiau drafft ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant a'r Gofrestr Risgiau Plant ddrafft yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn. Bydd ein Proffiliau Risg Plant drafft yn eu helpu i nodi ffactorau risg a allai fod yn berthnasol i'w gwasanaethau ar gyfer pob math o gynnwys sy'n niweidiol i blant.
- **Asesu'r risg o niwed.** Yna fe ddylai'r gwasanaethau asesu'r risg o niwed y gallai plant ei hwynebu pan fyddant yn eu defnyddio. I wneud hyn, dylent ddefnyddio'r ffactorau risg a nodwyd wrth ddefnyddio'r Proffiliau Risg Plant drafft ac asesu tebygolrwydd ac effaith pob math o gynnwys sy'n niweidiol i blant. Dylai'r cam hwn hefyd gynnwys ystyried effaith nodweddion gwasanaeth a allai gynyddu neu leihau'r risg o niwed i blant – er enghraifft, sut mae gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio, ei nodweddion a'i briodweddau, a'r risg o niwed cronnus. Rydym hefyd yn darparu canllawiau ar sut y dylai gwasanaethau neilltuo lefel risg i bob math perthnasol o gynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae hyn yn cael effaith yn nes ymlaen o ran pa fesurau diogelwch y dylent ystyried eu rhoi ar waith o'n Codau.
- **Rhoi mesurau diogelwch ar waith a chofnodi canlyniadau.** Dylai gwasanaethau benderfynu ar y mesurau i leihau'r risg o niwed i blant. Dylai'r penderfyniad ynghylch pa fesurau i'w rhoi ar waith fod yn seiliedig ar y lefel risg a neilltuwyd yng Ngham 2, ac fe ddylai ystyried ein Codau Diogelwch Plant drafft (a amlinellir isod).
- **Adrodd, adolygu a diweddaru'r asesiad risg plant**. Dylai gwasanaethau adrodd am eu hasesiad risg plant a'u mesurau drwy eu sianeli llywodraethu (fel uwch fyrddau llywodraethu). Dylent hefyd fonitro effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd wedi'u rhoi ar waith**.** Dylid adolygu asesiadau risg plant ar adegau penodol, gan gynnwys pan fyddwn yn diweddaru ein Proffil Risgiau Plant a chyn i ddarparwr gwasanaeth wneud newid sylweddol i ddyluniad neu weithrediad y gwasanaeth. Rydym yn argymell y dylai gwasanaethau hefyd adolygu asesiadau risg plant o leiaf bob 12 mis.

Mae rhagor o wybodaeth am bob cam wedi'i hamlinellu yng Nghyfrol 4 ac Atodiad 6.

## Cam 3: Mesurau diogelwch i amddiffyn plant ar-lein

**Mae ein Codau Diogelwch Plant drafft yn nodi'r mesurau diogelwch y gall gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio eu defnyddio i helpu i gadw plant yn ddiogel.**

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn defnyddio mesurau diogelwch cymesur i'w cadw'n ddiogel. Mae ein Codau Diogelwch Plant drafft yn cynnwys set o fesurau diogelwch y gall gwasanaethau ar-lein eu defnyddio i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Gall gwasanaethau benderfynu cydymffurfio â'u dyletswyddau drwy gymryd camau gwahanol i'r rhai yn y Codau. Fodd bynnag, bydd angen iddynt allu dangos eu bod yn cynnig y lefel briodol o ddiogelwch i blant.

Mae ein Codau drafft yn dod â phecyn eang o fesurau diogelwch at ei gilydd â'r nod o amddiffyn plant ar-lein. Maent hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chonglfeini eraill y drefn Diogelwch Ar-lein i wella diogelwch ar-lein i bawb, yn enwedig plant.

Er enghraifft, bydd ein Codau Diogelwch Niwed Anghyfreithlon drafft, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, yn cael effaith gadarnhaol ar blant gan eu bod yn nodi mesurau arfaethedig sydd â'r

nod o'u hatal rhag gweld cynnwys anghyfreithlon a rhwystro cyswllt gan rai a allai gyflawni troseddau cam-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. A bydd ein [Canllawiau drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig] yn helpu gwasanaethau ar-lein sy'n dangos pornograffi i gydymffurfio â'u dyletswyddau i roi mesurau sicrhau oedran effeithiol iawn ar waith er mwyn gwneud yn siŵr nad oes modd i blant ddod ar draws pornograffi. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau ddechrau 2025 sy'n cynnwys arferion gorau ar gyfer gwasanaethau ar sut y gallant gymryd camau pellach i fynd i'r afael â niwed ar sail rhywedd ar-lein yn erbyn defnyddwyr (fel casineb at fenywod), gan gynnwys plant.

Nid oes un mesur yn ateb pob problem y gall gwasanaethau ei gymryd i amddiffyn plant ar-lein. Mae'n rhaid i fesurau diogelwch weithio gyda'i gilydd i helpu i greu profiad mwy diogel i blant. Rydym yn cynnig set o fesurau diogelwch yn ein Codau Diogelwch Plant drafft, a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau profiadau mwy diogel i blant ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys tri maes cyffredinol:

- **llywodraethu ac atebolrwydd cadarn** – sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau atebolrwydd a goruchwyliaeth priodol gan uwch swyddogion dros ddiogelwch plant ar-lein;
- **dewisiadau mwy diogel o ran dyluniad llwyfannau** – sicrhau bod gwasanaethau'n deall oedran eu defnyddwyr a'u bod yn cadw plant yn ddiogel, gan gynnwys sicrhau bod systemau argymell a chymedroli cynnwys yn gweithredu'n effeithiol i atal niwed i blant; a
- **rhoi gwybodaeth, adnoddau, a chymorth i blant** – sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n darparu gwybodaeth glir a hygyrch i blant a gofalwyr, gwneud yn siŵr bod swyddogaethau adrodd a chwyno yn hawdd eu defnyddio, a rhoi adnoddau a chymorth i blant i'w helpu i gadw'n ddiogel.

## Llywodraethu ac atebolrwydd cadarn

Mae llywodraethu ac atebolrwydd cryf yn hanfodol i ymdrechion darparwyr gwasanaethau i amddiffyn plant ar-lein. Pan fyddwn yn cyfeirio at lywodraethu ac atebolrwydd, rydym yn golygu'r strwythurau a'r prosesau mae sefydliadau'n eu defnyddio i wneud yn siŵr bod goruchwyliaeth ddigonol dros brosesau gwneud penderfyniadau, rolau a chyfrifoldebau, a bod mecanweithiau adrodd ac adolygu effeithiol.

Felly, rydym yn cynnig mesurau ar gyfer sut y dylai darparwyr gwasanaethau fynd ati i lywodraethu a sicrhau atebolrwydd mewn perthynas ag amddiffyn plant ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar prif faes: trefniadau llywodraethu; atebolrwydd a chyfrifoldeb uwch swyddogion; sicrwydd mewnol; a pholisïau a hyfforddiant staff.

Mae'r rhain yn ategu'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer darparwyr yn ein Canllawiau drafft ar Asesiad Risg Plant, a drafodwyd uchod. Credwn y bydd y cyfan o'r mesurau hyn yn sicrhau bod lefel uchel o oruchwyliaeth gan uwch reolwyr o ran sut mae darparwyr gwasanaethau yn trin ac yn lliniaru'r risg o niwed i blant – ac yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n lliniaru'r risgiau hynny'n effeithiol.

Mae ein dull gweithredu yn gyson â'n Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon. Mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaethau sy'n gorfod cydymffurfio â dyletswyddau diogelwch cynnwys anghyfreithlon a dyletswyddau diogelwch plant yn gallu dewis mabwysiadu un broses sy'n ymdrin â'r ddau faes.

### Ein cynigion – yn gryno

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith[6] |
|---|---|---|
| **GA1** | Y corff uchaf i gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n fawr<br><br>Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr |
| **GA2** | Enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br><br>Pob gwasanaeth chwilio |
| **GA3** | Datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau uwch aelodau sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli risgiau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant |
| **GA4** | Meddu ar swyddogaeth sicrwydd a monitro mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod mesurau'n effeithiol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr; ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>Pob gwasanaeth chwilio sydd:<br>• Yn fawr, ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant |
| **GA5** | Olrhain cynnydd anarferol neu fathau newydd o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, Cynnwys Blaenoriaeth, a Chynnwys Heb ei Ddynodi ar y gwasanaeth a allai fod yn dod i'r amlwg ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Chwiliad cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant |
| **GA6** | Meddu ar God Ymddygiad sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr o ran diogelu plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant |
| **GA7** | Sicrhau bod staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwasanaeth yn weithredol wedi cael hyfforddiant digonol ar agwedd at gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant |

[6] Rydym yn cyfeirio at "aml-risg" yn y tablau drwy gydol yr adran hon. Mae hyn yn golygu ein bod yn cynnig bod y mesur yn berthnasol os yw'r gwasanaeth wedi dod i'r casgliad ei fod mewn perygl o fwy nag un math o gynnwys sy'n niweidiol i blant.

## Dewisiadau mwy diogel o ran dyluniad llwyfannau

Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fesurau diogelwch sy'n canolbwyntio ar gael darparwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwneud dewisiadau dylunio sylfaenol fel bod plant yn cael profiadau mwy diogel ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys tri phwnc cyffredinol:

- **deall pa ddefnyddwyr sy'n blant fel bod modd cadw'r plant hynny'n ddiogel;**
- **sicrhau nad yw systemau argymell yn gweithredu i niweidio plant; a**
- **gwneud yn siŵr bod systemau cymedroli cynnwys yn gweithio'n effeithiol.**

### Deall pa ddefnyddwyr sy'n blant fel bod modd eu hamddiffyn ar-lein

Nid ydym am i blant gael eu hamddifadu o'u hawliau na mwynhau manteision bod ar-lein, ond dylid eu hamddiffyn rhag dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol.

> "Dw i'n credu bod angen i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol orfodi'r cyfyngiadau oedran drwy wirio ID neu rywbeth [arall]." Unigolyn 16-17 oed[7]

Rydym yn cynnig defnydd ehangach o ddulliau sicrhau oedran fel bod gwasanaethau'n gwybod pa rai o'u defnyddwyr sy'n blant, fel eu bod yn cael profiad diogel ar-lein. Pan fyddwn yn argymell bod gwasanaethau'n defnyddio sicrwydd oedran, rydym yn cynnig eu bod yn defnyddio'r hyn rydym yn cyfeirio ato fel 'sicrwydd oedran effeithiol iawn'.

Dyma ffordd hynod effeithiol o bennu oedran yn gywir i weld a yw'r defnyddiwr dan sylw yn blentyn ai peidio. Rydym yn cynnig y dylai'r dulliau sicrhau oedran a ddefnyddir fodloni meini prawf cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch. Rydym wedi cyhoeddi ein canllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn Atodiad 10.

Mae ein cynigion yn cydnabod nad yw sicrwydd oedran yn gwbl effeithiol ac nad dyma'r unig ateb effeithiol i amddiffyn plant ym mhob sefyllfa. Felly, rydym yn argymell bod sicrwydd oedran effeithiol iawn yn cael ei ddefnyddio yn y meysydd lle gall gael yr effaith fwyaf o ran amddiffyn plant ar-lein. Rydym hefyd wedi ystyried yr angen i ddiogelu hawliau defnyddwyr sy'n oedolion wrth gael gafael ar gynnwys cyfreithiol.

Yn y pen draw, nod ein cynigion yw amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol, ac i gryfhau effeithiolrwydd y mesurau eraill sydd wedi'u nodi isod (a allai ddibynnu ar wybod beth yw oedran y defnyddiwr).

**Ein cynigion – yn gryno**

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **AA1** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â'r prif bwrpas o ddarparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. |
| **AA2** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â'r prif bwrpas o ddarparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac |

[7] Ofcom, 2024. Agweddau Plant at Roi Gwybod am Gynnwys Ar-lein.

| | | |
|---|---|---|
| | | • Sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r mathau hynny o Gynnwys Blaenoriaeth. |
| **AA3** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hatal rhag dod ar draws Cynnwys Prif Flaenoriaeth sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â phrif bwrpas nad yw'n cynnwys darparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, ac<br>• Nad yw'n gwahardd un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. |
| **AA4** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag dod ar draws Cynnwys Blaenoriaeth sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â phrif bwrpas nad yw'n cynnwys darparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac<br>• Nad yw'n gwahardd un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac<br>• Sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth nad ydynt yn eu gwahardd. |
| **AA5** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i gymhwyso mesurau system argymell perthnasol yn y Cod i blant (gweler isod) | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, ac sy'n<br>• Defnyddio system argymell cynnwys |
| **AA6** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i gymhwyso mesurau system argymell perthnasol yn y Cod i blant (gweler isod) | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio), ac sy'n<br>• Defnyddio system argymell cynnwys |

## Sicrhau nad yw systemau argymell yn gweithredu i niweidio plant

Systemau argymell yw'r prif ddull o rannu cynnwys defnyddwyr ar draws gwasanaethau. Mae systemau argymell yn defnyddio algorithmau i guradu ac i bennu sut mae cynnwys yn cael ei ddangos i ddefnyddwyr (gan gynnwys plant) ar sail eu nodweddion, eu diddordebau tybiedig, a'u hymddygiad. Yn gyffredinol, maent wedi'u cynllunio i wneud y gwasanaeth yn fwy deniadol i ddefnyddwyr drwy ddangos cynnwys y mae'r system argymell yn tybio sy'n debygol o fod o ddiddordeb iddynt.

Mae tystiolaeth yn dangos mai systemau argymell yw'r prif lwybr i blant ddod ar draws cynnwys niweidiol, megis cynnwys am hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, a chynnwys treisgar a phornograffig. Maent hefyd yn cyfrannu at ddod â'r nifer o fathau o gynnwys sy'n cael ei gyflwyno i ddefnyddiwr i lawr, a all arwain at argymhellion cynnwys sy'n mynd yn fwyfwy niweidiol yn ogystal ag achosi niwed cronnus i ddefnyddwyr dros amser drwy ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol neu gyfuniadau niweidiol o gynnwys dro ar ôl tro.

> "Mae fel algorithm. Os ydych chi'n gwylio [cynnwys treisgar], rydych chi'n cael mwy ohono." – 15 oed[8]

Felly, rydym yn cynnig tri mesur diogelwch sy'n targedu dyluniad a gweithrediad systemau argymell i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag dod ar draws cynnwys niweidiol ar ffrydiau sy'n cael eu hargymell a bod ganddynt fwy o reolaeth dros y cynnwys sy'n cael ei argymell iddynt. Rydym yn credu y bydd y rhain yn gweithio gyda'i gilydd i liniaru'r risgiau o niwed y mae systemau argymell yn eu hachosi i blant, yn enwedig y risg o ddod i gysylltiad â niwed cronnus.

### Ein cynigion – yn gryno

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **RS1** | Sicrhau nad yw cynnwys sy'n debygol o fod yn Gynnwys Prif Flaenoriaeth yn cael ei gynnig i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un math o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. |
| **RS2** | Sicrhau bod cynnwys sy'n debygol o fod yn Gynnwys Blaenoriaeth yn llai amlwg ar ffrydiau argymell plant [9] | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un math o Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio)[10] |
| **RS3** | Galluogi plant i roi adborth negyddol ar gynnwys sy'n cael ei argymell iddynt. | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys,<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf ddau fath o Gynnwys Prif Flaenoriaeth a/neu Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio)[11], ac<br>• Sy'n Fawr. |

Yn ystod ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, gwnaethom gynnig mesur diogelwch ar gyfer darparwyr gwasanaethau i gasglu metrigau am systemau argymell a defnyddio'r data a gasglwyd i asesu a yw'r newidiadau'n debygol o olygu bod defnyddwyr yn fwy tebygol o weld cynnwys anghyfreithlon. Bydd y cynnig blaenorol hwn hefyd yn helpu i amddiffyn plant rhag cynnwys anghyfreithlon.

---

[8] Ofcom, 2024. Deall y Llwybrau at Gynnwys Treisgar Ar-lein ymysg Plant.

[9] Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn y mesur hwn fel y byddai'n berthnasol i gategorïau penodol o Gynnwys Heb ei Ddynodi (NDC), sef cynnwys am ddelwedd y corff a chynnwys am iselder, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar NDC. Byddai hyn yn golygu y byddai systemau argymell hefyd yn gwneud y ddau fath yma o NDC yn llai amlwg.

[10] Rydym yn cynnig peidio â chynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chynnwys bwlio oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig ar hyn o bryd o'r cysylltiad rhwng systemau argymell a'r risgiau o niwed sy'n gysylltiedig â bwlio. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys dau fath posibl o NDC, yn amodol ar ymgynghori.

[11] Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn y mesur hwn ar gyfer dau fath posibl o NDC. Trowch at Gyfrol 5, Adran 20 i gael rhagor o wybodaeth.

## Gwneud yn siŵr bod systemau cymedroli yn gweithio'n effeithiol

Cymedroli cynnwys yw'r broses a ddefnyddir gan wasanaeth i adolygu cynnwys i benderfynu sut y dylid ei drin ar ei wasanaeth. Os yw'r cynnwys yn niweidiol i blant sy'n golygu y dylid cyfyngu ar fynediad ato, dylai gwasanaethau gymryd camau i sicrhau bod plant yn cael eu hatal neu eu hamddiffyn rhag dod ar ei draws. Gellir cymedroli cynnwys yn awtomatig drwy ddefnyddio technoleg, cymedrolwyr dynol, neu gyfuniad o'r ddau. Mae cymedroli cynnwys yn chwarae rhan bwysig iawn o ran cadw defnyddwyr yn ddiogel rhag niwed - yn enwedig plant.

Mae tystiolaeth yn dangos bod cynnwys sy'n niweidiol i blant ar gael ar lawer o wasanaethau ar raddfa fawr, a bod plant yn dod i gysylltiad ag ef yn rheolaidd. Mae hyn yn awgrymu nad yw ymdrechion presennol gwasanaethau i amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol – gan gynnwys cymedroli cynnwys – yn gweithio'n ddigon da.

Felly, rydym yn cynnig mesurau diogelwch sy'n targedu effeithiolrwydd systemau cymedroli cynnwys ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Maent yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod gan wasanaethau systemau a phrosesau effeithiol ar waith i weithredu ar gynnwys sy'n niweidiol i blant, polisïau clir ar yr hyn a ganiateir, adnoddau cymedroli digonol, a systemau effeithiol i flaenoriaethu sut mae cynnwys yn cael ei gymedroli. Rydym yn credu y bydd y mesurau hyn yn cefnogi systemau a phrosesau cymedroli cynnwys mwy effeithiol, ac wedyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn dod ar draws cynnwys niweidiol.

Yn y pen draw, rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sefydlu systemau effeithiol i fynd i'r afael â chynnwys sy'n niweidiol i blant a chymryd camau cyflym i'w hamddiffyn rhag hynny. Gallai hyn gynnwys sicrhau nad yw cynnwys o'r fath yn cael ei ddangos i blant neu dynnu'r cynnwys i lawr os nad yw'n cael ei ganiatáu. Ar gyfer gwasanaethau mawr ac aml-risg, rydym yn cynnig pecyn o fesurau mwy cynhwysfawr i sicrhau bod y prosesau hyn yn addas i'r diben o ystyried yr amgylchedd risg mwy cymhleth y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu ynddo. Nid yw'r set yma o gynigion yn cynnwys disgwyliadau ynghylch defnyddio offer awtomataidd i ganfod ac adolygu cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod gwasanaethau mawr yn aml yn gwneud hynny i ddelio â maint y cynnwys ac maent yn archwilio sut i ymgorffori mesurau ar offer awtomataidd yn ein Codau.

Rydym wedi ceisio mabwysiadu dull cyson ar gyfer ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon mewn perthynas â'n cynigion ar gymedroli cynnwys. Felly, rydym yn credu y gall gwasanaethau fod yn gydlynol wrth ystyried ein codau arfaethedig yn eu cyfanrwydd. Rydym yn cynnig un mesur ychwanegol ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n defnyddio cymedroli gwirfoddol i liniaru'r risgiau penodol maent yn eu hachosi i blant (gweler CM7 isod). Rydym hefyd yn cynnig ymestyn y mesur hwn i wasanaethau sydd mewn perygl o niwed anghyfreithlon (gweler 4G isod).

**Ein cynigion – yn gryno**

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **CM1** | Systemau a phrosesau cymedroli cynnwys sydd wedi'u cynllunio i gymryd camau yn gyflym yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr |
| **SM1** | Meddu ar systemau a phrosesau cymedroli i gymryd camau priodol:<br>• Pan fydd Cynnwys Prif Flaenoriaeth wedi'i nodi, israddio a/neu wneud y cynnwys chwilio yn aneglur | Pob gwasanaeth chwilio |

| | | |
|---|---|---|
| | • Pan fydd Cynnwys Blaenoriaeth a Chynnwys Heb ei Ddynodi wedi'i nodi, ystyried a yw'n briodol israddio a/neu wneud y cynnwys chwilio yn aneglur | |
| **SM2** | Pan gredir bod defnyddiwr yn blentyn, mae'r hidlydd yn canfod Cynnwys Prif Flaenoriaeth yn y canlyniadau chwilio drwy osodiad chwilio diogel. Ni ddylai defnyddwyr y credir eu bod yn blant allu diffodd y gosodiad hwn | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr |
| **CM2 & SM3** | Pennu a chofnodi polisïau cynnwys mewnol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg |
| **CM3 & SM4** | Gosod targedau perfformiad ar gyfer y swyddogaeth cymedroli cynnwys | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg |
| **CM4 & SM5** | Datblygu a defnyddio polisïau ar flaenoriaethu cynnwys i'w adolygu | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg |
| **CM5 & SM6** | Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y swyddogaethau cymedroli cynnwys | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg |
| **CM6 & SM7** | Sicrhau bod timau cymedroli cynnwys wedi cael hyfforddiant priodol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes cymedroli chwiliadau yn cael hyfforddiant a deunyddiau | • Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant.<br>Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg |
| **CM7** | Dylid rhoi deunyddiau i gymedrolwyr gwirfoddol ar gyfer eu rolau | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n defnyddio cymedroli gwirfoddol ac sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. |
| **4G** | **Mesur newydd yn ymwneud â'r Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon 2023:** Os defnyddir cymedroli gwirfoddol, dylid rhoi deunyddiau i gymedrolwyr ar gyfer eu rolau. | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n defnyddio cymedroli gwirfoddol ac sydd naill ai'n:<br>• Risg uchel/canolig ar gyfer o leiaf ddau fath o niwed anghyfreithlon<br>• Risg isel a mawr |

## Rhoi gwybodaeth, adnoddau a chymorth i blant

Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fesurau diogelwch sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi gwybodaeth, adnoddau a chymorth i blant a fydd yn eu helpu i gadw'n fwy diogel ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys tri phwnc cyffredinol:

- cael telerau gwasanaeth clir a datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd;
- gwneud yn siŵr bod ffyrdd rhwydd i blant roi gwybod am gynnwys a chwyno; a
- rhoi adnoddau a chymorth i blant i'w helpu i gadw'n ddiogel.

### Cael telerau gwasanaeth clir a datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd

Mae telerau gwasanaeth ('telerau') a datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd ('datganiadau') fel arfer yn nodi'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan ddarparwr gwasanaeth a defnyddwyr eu gwasanaeth tuag at ei gilydd. Mae telerau a datganiadau'n tueddu i gynnwys gwybodaeth am sut mae gwasanaeth yn gweithio, gan gynnwys pwy sy'n cael defnyddio'r gwasanaeth, rheolau ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth a sut y bydd defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag niwed ar y gwasanaeth.

Mae angen i blant a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt gyfeirio at delerau neu ddatganiadau os ydynt eisiau deall y darpariaethau sydd gan ddarparwyr ar waith i helpu i'w diogelu. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan wasanaeth, neu os yw'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd ddryslyd neu anhygyrch, efallai na fydd plant a gofalwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch defnyddio'r gwasanaeth. Ar ben hynny, gallai fod yn anodd iddynt wybod pa gynnwys a ganiateir ac adnabod cynnwys sy'n niweidiol a rhoi gwybod amdano. Gallai hyn gyfrannu at bresenoldeb hirfaith y cynnwys sy'n niweidiol i blant ar wasanaeth.

> "Mae'r rheolau maen nhw'n eu dangos i chi yn ymestyn dros baragraffau hir a does neb yn darllen y rheiny i gyd." Unigolyn 13-15 oed[12]

[12] Ofcom, 2024. Agweddau Plant at Roi Gwybod am Gynnwys Ar-lein.

Felly, rydym yn cynnig y dylai'r holl wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sicrhau bod eu telerau gwasanaeth a/neu ddatganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn gynhwysfawr, yn glir ac yn hygyrch i blant a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Dylai plant allu deall pa gynnwys sy'n cael ei ganiatáu ar wasanaeth a pha gynnwys sydd ddim yn cael ei ganiatáu – ac fe ddylid nodi hynny mor glir â phosibl.

Rydym yn credu y bydd ein cynigion yn cynyddu gwybodaeth a hyder plant i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys unrhyw ffyrdd mae'r gwasanaeth yn eu darparu iddynt reoli eu profiadau eu hunain fel defnyddwyr. Dylai hyn, yn ei dro, helpu plant i adnabod a chyflwyno adroddiad neu gŵyn os ydynt yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol ar-lein. Dylai hyn gyfrannu at amgylchedd mwy diogel ar-lein i blant.

Mae ein cynigion fwy neu lai'n gyson â'r mesurau a gynigir yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon. Fodd bynnag, rydym yn cynnig mesur newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau Categori 1 a 2A – sef y dylent grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg plant diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiad.

Rydym hefyd yn cynnig mesur cyfatebol (6AA) ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2A sy'n ymwneud â'u hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon i ychwanegu at y cynigion a nodir yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon. Mae'r mesur hwn yn argymell y dylai gwasanaethau Categori 1 a 2A grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiad er mwyn bod yn glir pa risgiau a niwed y gallai unigolion o bosibl ddod ar eu traws ar y gwasanaeth.

**Ein cynigion – yn gryno**

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **TS1** | Dylai'r telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br>Pob gwasanaeth chwilio |
| **TS2** | Dylai'r telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant fod yn glir ac yn hygyrch | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br>Pob gwasanaeth chwilio |
| **TS3** | Dylai'r gwasanaethau grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg plant diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiadau | Pob gwasanaeth Categori 1<br>Pob gwasanaeth Categori 2A |
| **6AA** | **Mesur newydd yn ymwneud â'r Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon 2023:** Dylai'r gwasanaethau grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg cynnwys anghyfreithlon diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiadau | Pob gwasanaeth Categori 1<br>Pob gwasanaeth Categori 2A |

## Gwneud yn siŵr bod ffyrdd rhwydd i blant roi gwybod am gynnwys a chwyno

Mae dulliau adrodd a chwyno yn caniatáu i ddefnyddwyr – gan gynnwys plant – roi gwybod i ddarparwyr gwasanaethau pan fydd cynnwys niweidiol yn bresennol ar eu gwasanaethau, neu pan fydd cynnwys yn cael ei dynnu neu ei gyfyngu mewn camgymeriad. Mae'r ddau'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o amddiffyn plant ar-lein a diogelu hawliau defnyddwyr.

Er bod llawer o wasanaethau yn cynnig swyddogaethau adrodd a chwyno i ddefnyddwyr yn barod, mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant yn credu bod y rhain bob amser yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio ac yn dryloyw. Gall hyn atal pobl rhag defnyddio'r swyddogaethau hyn, gan gynnwys plant.

> "Dw i'n credu y dylai'r botwm adrodd gael ei amlygu drwy'r amser… i wneud iddo sefyll allan ac yn hawdd ei ganfod." Unigolyn 13-15 oed[13]

Yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, gwnaethom awgrymu nifer o fesurau a oedd yn canolbwyntio ar wella sut mae darparwyr gwasanaethau'n ymdrin â chwynion ac adroddiadau i'w helpu i gydymffurfio â'r Ddeddf. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig mesurau ychwanegol i ysgogi rhagor o welliannau a sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r mesurau newydd hyn yn mynnu bod gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn cynnig gweithdrefnau cwyno sy'n glir, syml a hygyrch. Rhaid iddynt hefyd ymateb i gwynion yn brydlon a chymryd camau priodol.

Mae ein mesurau arfaethedig yn cyfeirio at 'gwynion', sy'n cynnwys adroddiadau gan ddefnyddwyr, apeliadau a mathau eraill o gwynion, fel cwynion am wasanaeth nad yw'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau i amddiffyn plant. Mae adroddiadau gan ddefnyddwyr yn fath penodol o gŵyn am gynnwys, a gyflwynir drwy adnodd adrodd. Mae apeliadau yn gwynion gan ddefnyddwyr sy'n credu bod gwasanaeth wedi gwneud penderfyniad anghywir am ddarn o gynnwys.

Gwyddom fod llawer o ddarparwyr yn defnyddio un broses gwyno ar gyfer gwahanol fathau o gwynion. Rydym wedi ystyried hyn wrth asesu pa fesurau i'w cynnig yn y Codau Diogelwch Plant. Mae llawer o'r mesurau arfaethedig yn cyd-fynd â'r mesurau yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon drafft. Mae mesurau UR2 ac UR3 isod yn cynnwys elfennau ychwanegol, ac rydym yn credu ar hyn o bryd y dylid eu cynnwys yn y Codau Diogelwch Plant a'r Codau Cynnwys Anghyfreithlon. Mae'r rhain yn argymhellion sy'n nodi y dylai gwasanaethau esbonio i achwynwyr adeg cwyno pa wybodaeth, os o gwbl, y byddant yn ei darparu, ac fe ddylai gwasanaethau gynnwys gwybodaeth am ddatrys cwynion yn y gydnabyddiaeth y byddant yn ei hanfon at achwynwyr.

Rydym yn cynnig ehangu'r mesurau hyn am fod tystiolaeth newydd yn dangos bod plant yn poeni am gyfrinachedd prosesau cwyno, a bod cyfathrebu gwael gan wasanaethau am gwynion yn gallu tanseilio ymddiriedaeth yn y broses gyfan. O ganlyniad, awgrymwn y dylai gwasanaethau wella'r ffordd maent yn esbonio eu gweithdrefnau cwyno i ddefnyddwyr, gyda'r nod o wneud y mecanweithiau hyn yn fwy tryloyw.

Rydym yn credu y bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gan wasanaethau weithdrefnau cwyno effeithiol ar waith a fydd yn eu helpu i gymryd camau i amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol, ac yn gwella unrhyw systemau maent yn eu defnyddio i ganfod cynnwys niweidiol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud gwasanaethau'n fwy diogel i blant, a'u bod yn atebol ac yn parchu hawliau defnyddwyr.

### Ein cynigion – yn gryno

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **UR1** | Meddu ar brosesau cwyno sy'n galluogi defnyddwyr i wneud cwynion perthnasol am wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br><br>Pob gwasanaeth chwilio |

[13] Ofcom, Agweddau Plant at Roi Gwybod am Gynnwys Ar-lein, 2024

| | | |
|---|---|---|
| **UR2** | Meddu ar systemau cwyno tryloyw sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br><br>Pob gwasanaeth chwilio |
| **UR3** | Cydnabod derbyn cwynion gydag amserlen ddangosol a gwybodaeth am ddatrysiad | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<br><br>Pob gwasanaeth chwilio |
| **UR4** | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr i gymryd camau priodol mewn ymateb i bob cwyn | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr |
| **UR5** | Gwasanaethau chwilio yn cymryd camau priodol mewn ymateb i bob cwyn | Pob gwasanaeth chwilio |
| **SD1** | Cynnig ffordd i ddefnyddwyr roi gwybod yn hawdd am awgrymiadau chwilio rhagfynegol sy'n ymwneud â chynnwys prif flaenoriaeth a chynnwys blaenoriaeth | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr |

## Rhoi adnoddau a chymorth i blant i gadw'n ddiogel

Mae gan lawer o wasanaethau swyddogaethau sy'n galluogi defnyddwyr i gysylltu â'i gilydd, fel negeseuon grŵp neu adrannau sylwadau. Gall y swyddogaethau hyn beri risg i blant am eu bod yn galluogi defnyddwyr i gyflwyno cynnwys neu weithgarwch niweidiol i blant heb eu caniatâd.

> "Dw i'n credu y gallen nhw osod [cyfyngiadau] llymach ar bwy sy'n gallu cysylltu â phwy, oherwydd gallai hynny osgoi ... pobl yn cael eu hychwanegu at bethau fel sgyrsiau grŵp..." Unigolyn 14-17 oed[14]

Rydym wedi cynnig mesurau cymorth i ddefnyddwyr a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi mwy o reolaeth i blant dros eu profiadau ar-lein ac yn eu helpu i gadw'n ddiogel ar-lein. Ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, rydym yn cynnig:

- **adnoddau cymorth i ddefnyddwyr** a fydd yn galluogi plant i gael mwy o reolaeth dros eu rhyngweithiadau ar wasanaethau sy'n peri risg o niwed, drwy roi'r opsiwn iddynt wrthod gwahoddiadau grŵp, rhwystro a thawelu cyfrifon defnyddwyr, neu analluogi sylwadau ar eu postiadau eu hunain; a
- **deunyddiau cymorth i ddefnyddwyr** i blant i'w helpu i ddeall sut gallant gyfyngu ar fathau penodol o ryngweithiadau ar-lein a allai eu rhoi mewn perygl o niwed a'u cefnogi pan fyddant yn rhoi gwybod, yn postio neu'n chwilio am fathau penodol o gynnwys niweidiol. Mae'r mesurau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar faint a lefel risg y gwasanaeth.

Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu'n fras y rheini y gwnaethom eu cynnig mewn perthynas â chymorth i ddefnyddwyr yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon. Mae Mesur US4 hefyd yn fersiwn wedi'i haddasu o fesur yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon – rydym yn cynnig bod rhai mathau o wasanaethau'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n blant pan fyddant yn cyfyngu ar eu gallu i ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon eraill. Byddwn yn ystyried p'un a ddylid defnyddio'r elfen ychwanegol hon yn ein Codau Niwed Anghyfreithlon cyn eu cwblhau. Rydym hefyd yn cynnig tri mesur cymorth i ddefnyddwyr ar gyfer y Codau Diogelwch Plant nad oes ganddynt fesur cyfatebol yn ein Codau Niwed Anghyfreithlon arfaethedig.

[14] Ofcom, 2024. Prif nodweddion a phrofiadau o seiberfwlio ymysg plant yn y DU.

Ar gyfer gwasanaethau chwilio, rydym hefyd yn cynnig mesur i ddarparu gwybodaeth am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio am gynnwys prif flaenoriaeth hysbys (sy'n cynnwys hunan-niweidio a hunanladdiad). Mae gwybodaeth am atal argyfwng yn cynnwys cymorth a chefnogaeth fel llinellau cymorth a gwybodaeth gefnogol gan sefydliadau dibynadwy. Mae'r mesur hwn hefyd yn gyson â'r hyn a gynigiwyd gennym yn ein Hymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon.

Rydym yn credu y bydd y mesurau hyn yn rhoi mwy o reolaeth i blant dros eu rhyngweithiadau ar-lein ac yn darparu cymorth ychwanegol tra byddant ar-lein er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel.

### Ein cynigion – yn gryno

| # | Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith |
|---|---|---|
| **US1** | Rhoi dewis i blant dderbyn neu wrthod gwahoddiad i ymuno â sgwrs grŵp | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Cynnal sgyrsiau grŵp, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o'r canlynol: cynnwys pornograffig, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb[15] a chynnwys treisgar.[16] |
| **US2** | Rhoi dewis i blant rwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr eraill | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Cynnwys proffiliau defnyddwyr a swyddogaethau penodol ar gyfer rhyngweithio â defnyddwyr,[17] ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o'r canlynol: cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb a chynnwys treisgar |
| **US3** | Rhoi dewis i blant analluogi sylwadau ar eu postiadau eu hunain | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Cynnwys swyddogaethau gwneud sylwadau, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb a chynnwys treisgar |
| **US4** | Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n blant pan fyddant yn cyfyngu ar ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon eraill | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar swyddogaethau penodol sy'n cyfyngu ar ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon eraill,[18] ac |

[15] Rydym yn defnyddio cynnwys 'difrïol a chasineb' i gyfeirio at y ddau fath o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(2) a 62(3). Ystyrir bod gwasanaeth yn meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer cynnwys difrïol a chasineb os oes ganddo risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un o'r ddau fath o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(2) a 62(3).

[16] Rydym yn defnyddio 'cynnwys treisgar' i gyfeirio at y tri math o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(4), 62(6) a 62(7). Ystyrir bod gwasanaeth yn meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer cynnwys treisgar os oes ganddo risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un o'r tri math o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(4), 62(6) a 62(7).

[17] Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau defnyddwyr, postio cynnwys, a chyfathrebu â defnyddwyr. I gael mwy o wybodaeth, trowch at Gyfrol 5, Adran 20.

[18] Trowch at Gyfrol 5, Adran 20 i gael rhagor o wybodaeth am y swyddogaethau sy'n berthnasol i Fesur US4.

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn fawr, ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant |
| **US5** | Cyfeirio plant at gymorth ar adegau allweddol yn ystod taith y defnyddiwr | Pwynt ymyrryd 1 – pan fydd plant yn rhoi gwybod am gynnwys<br>Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o’r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, neu gynnwys bwlio<br>Pwynt ymyrryd 2 – pan fydd plant yn postio neu'n ail-bostio cynnwys<br>Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n<br>• Cynnwys swyddogaethau postio/ail-bostio, ac<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o’r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, neu gynnwys bwlio, ac<br>• Sy’n cynnwys mesurau sy’n eu galluogi i adnabod pan fydd defnyddiwr yn postio neu’n ail-bostio cynnwys am hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylder bwyta neu fwlio<br>Pwynt ymyrryd 3 – pan fydd plant yn chwilio am gynnwys niweidiol:<br>Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n<br>• Cynnwys y gallu i chwilio am gynnwys sy’n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, a<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o’r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, ac<br>• Sy’n cynnwys mesurau sy’n eu galluogi i ddod yn ymwybodol pan fydd defnyddiwr yn chwilio gan ddefnyddio termau sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylder bwyta |
| **US6** | Darparu deunyddiau cymorth i ddefnyddwyr sy'n blant sy’n briodol i’w hoedran | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant<br><br>Pob gwasanaeth chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant |
| **SD2** | Darparu gwybodaeth am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio Cynnwys Prif Flaenoriaeth sy'n ymwneud â | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr |

| | | |
|---|---|---|
| | hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta | |

## Sut rydym yn penderfynu pa wasanaethau ddylai roi pob mesur ar waith

Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn ystyried nifer o egwyddorion wrth ddatblygu ein cynigion. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y mesurau a nodir yn ein Codau yn gydnaws â'r amcanion diogelwch ar-lein a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys y dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n darparu amddiffyniad o safon uwch i blant nag i oedolion. Felly, yr hyn a fu'n ganolog i'n dull gweithredu oedd datblygu set o fesurau sy'n sicrhau bod gan wasanaethau systemau a phrosesau ar waith i leihau'r risgiau i blant. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi pa fesurau sydd fwyaf effeithiol o ran amddiffyn plant ac i dargedu'r mesurau hynny tuag at wasanaethau lle mae plant yn wynebu'r risgiau mwyaf.

Ar yr un pryd, mae'r Ddeddf yn glir y dylem, wrth ddylunio Codau, sicrhau bod unrhyw gynigion yn gymesur â'r risg o niwed a gyflwynir gan wasanaethau o'r math a'r maint hwnnw. Rydym yn cydnabod bod maint, capasiti, swyddogaethau, sylfaen defnyddwyr a risgiau gwasanaethau ar-lein o fewn cwmpas dyletswyddau diogelwch plant yn amrywio'n eang. O'r herwydd, nid ydym wedi defnyddio un dull sy'n addas i bawb, ac yn hytrach rydym wedi cynnig mesurau gwahanol yn unol â lefel y risg a gyflwynir gan wasanaethau, eu maint a'u hadnoddau.

Nid yw hyn yn golygu y gall gwasanaethau llai â risgiau osgoi cyflawni eu dyletswyddau i gadw plant yn ddiogel am fod ganddynt lai o adnoddau. Yn hytrach, rydym yn ystyried baich rheoleiddio ein mesurau ar wasanaethau i wneud yn siŵr nad yw amddiffyn plant ar-lein yn tanseilio arloesedd a buddsoddiad yn ormodol mewn gwasanaethau o ansawdd uchel ar-lein y gall pob defnyddiwr yn y DU eu mwynhau.

O ganlyniad, rydym yn cynnig bod yr holl wasanaethau y mae plant yn eu defnyddio – beth bynnag fo'u maint neu risg – yn rhoi set graidd o fesurau ar waith i amddiffyn plant ar-lein. Rydym yn cynnig mesurau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau sy'n peri mwy o risg o niwed i blant, a dim ond yn argymell mesurau costus ar gyfer gwasanaethau llai pan fydd risg glir o niwed a phan fydd gennym dystiolaeth y bydd y mesurau a gynigir yn gwneud gwahaniaeth sylweddol wrth ddelio â'r risg dan sylw. Bydd disgwyl i wasanaethau mwy, sydd â gwell adnoddau, ac sy'n peri'r risgiau mwyaf i lawer o blant fynd ymhellach fyth.

Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, y bydd pob mesur yn cael ei argymell ar sail meini prawf perthnasol, sy'n cynnwys:

- **y math o wasanaeth**, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr lle bo hynny'n briodol;
- **canlyniad asesiad risg diweddaraf y gwasanaeth**, a pha risgiau sydd wedi cael eu nodi mewn perthynas â chynnwys sy'n niweidiol i blant; a
- **swyddogaethau perthnasol a nodweddion eraill** gwasanaeth y dangoswyd ei fod yn peri risg i blant; a
- **maint y gwasanaeth**, o ran ei sylfaen defnyddwyr yn y DU. Pan fyddwn yn cyfeirio at faint darparwr y gwasanaeth, rydym wedi cynnig y diffiniadau canlynol:
    - **gwasanaethau mawr**: rydym yn cynnig diffinio bod gwasanaeth yn 'fawr' pan fo ganddo sylfaen defnyddwyr cyfartalog sy'n fwy na saith miliwn y mis yn y DU, sy'n cyfateb yn fras i 10% o boblogaeth y DU; a

- **gwasanaethau llai**: mae’r rhain i gyd yn wasanaethau nad ydynt yn perthyn i’r categori ‘mawr’.

# Yr hyn rydym wedi'i gyhoeddi

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys pum cyfrol sy'n nodi ein dadansoddiad a'r dull gweithredu rydym wedi'i ddefnyddio, yn ogystal â fersiynau drafft y codau a'r canllawiau y mae'n rhaid i ni eu cynhyrchu. Rydym yn rhoi trosolwg isod er gwybodaeth.

## Cyfrol 1: Trosolwg, cwmpas a dull rheoleiddio

Mae Cyfrol 1 yn rhoi trosolwg o'r ymgynghoriad. Rydym hefyd yn egluro cwmpas ein hymgynghoriad a sail gyfreithiol ein cynigion, gan gynnwys beth rydym yn ei olygu wrth gynnwys sy'n niweidiol i blant, a sut mae ein cynigion yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol Ofcom ar gyfer diogelwch ar-lein.

## Cyfrol 2: Nodi'r gwasanaethau mae plant yn eu defnyddio

Mae Cyfrol 2 yn egluro sut rydym wedi mynd ati i baratoi ein Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant. Dyma'r broses y mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth ei dilyn i asesu a yw gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant. Cyhoeddir ein Canllawiau drafft ar Asesiadau Mynediad Plant ar wahân. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein canllawiau drafft ar beth sy'n sicrwydd oedran effeithiol iawn.

## Cyfrol 3: Achosion ac effeithiau niwed i blant

Mae Cyfrol 3 yn cyflwyno ein hasesiad o sut mae cynnwys sy'n niweidiol i blant yn dod i'r amlwg ar-lein, pa ffactorau sy'n achosi risgiau o niwed, ac effaith cynnwys niweidiol ar blant. Mae ein dadansoddiad yn y gyfrol hon yn ymgorffori dau gynnyrch rheoleiddiol - ein fersiwn ddrafft o'r Gofrestr Risgiau Plant, a'n Canllawiau drafft ar Gynnwys Niweidiol i Blant.

## Cyfrol 4: Asesu'r risgiau o niwed i blant ar-lein

Mae Cyfrol 4 yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig o ran sut y dylai darparwyr gwasanaethau asesu'r risgiau i blant wrth ddefnyddio eu gwasanaeth(au). Rydym yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y canllawiau y mae angen i ni eu paratoi ar gyfer gwasanaethau am asesiadau risg plant, a'n cynigion ar gyfer sut y dylai gwasanaethau fynd ati i lywodraethu a sicrhau atebolrwydd mewn perthynas â dyletswyddau diogelwch plant yn y Ddeddf. Cyhoeddir ein Canllawiau drafft ar Asesiad Mynediad Plant ar wahân.

## Cyfrol 5: Beth ddylai gwasanaethau ei wneud i leihau'r risg o niwed i blant ar-lein?

Mae Cyfrol 5 yn esbonio'r mesurau rydym yn cynnig y dylai gwasanaethau eu rhoi ar waith i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Mae'r mesurau hyn yn ffurfio ein Codau Diogelwch Plant drafft, a gyhoeddir ar wahân ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein canllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn.